Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Adroddiadau ymchwil 68 Crynodeb gweithredol

Asesu cynnydd awdurdodau lleol ar fodloni anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr: Diweddariad 2010

Crynodeb gweithredol

Philip Brown, Sharron Henning and Pat Niner

Uned Astudiaethau Tai a Threfol Salford, Prifysgol Salford, a Canolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbthol, Prifysgol Birmingham

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Asesu cynnydd awdurdodau lleol ar fodloni anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr: Diweddariad 2010

Crynodeb gweithredol

Philip Brown a Sharron Henning, Uned Astudiaethau Tai a Threfol Salford, Prifysgol Salford, a Pat Niner, Canolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol, Prifysgol Birmingham

CURS
Centre for Urban and Regional Studies

shusu
Salford Housing & Urban Studies Unit

The University of Salford

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2011

Cyhoeddwyd gyntaf yng Ionawr 2011

ISBN 978 1 84206 345 3

CYFRES ADRODDIADAU YMCHWIL Y COMISIWN CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Mae Cyfres Adroddiadau Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyhoeddi ymchwil sy'n cael ei gyflawni ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) gan ymchwilwyr sy'n cael eu comisiynu.

Safbwyntiau'r awduron a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yr un peth â safbwyntiau'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi'r adroddiad fel cyfraniad at drafodaeth a dadl.

Cysylltwch â'r Tîm Ymchwil am ragor o wybodaeth am adroddiadau ymchwil eraill y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, neu ewch i'n gwefan:

Research Team
Equality and Human Rights Commission
Arndale House
The Arndale Centre
Manchester
M4 3AQ

E-bost: research@equalityhumanrights.com
Ffôn: 0161 829 8500
Gwefan: www.equalityhumanrights.com

Gallwch lawrlwytho copi o'r crynodeb gweithredol hwn a'r adroddiad llawn ar ffurf PDF o'n gwefan: www.equalityhumanrights.com/researchreports

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Yn 2009 fe gyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) y papur briffio *Sipsiwn a Theithwyr: Datrysiadau syml i gydfyw* (a gyfeirir ato fel arfer fel *Simple Solutions*). Roedd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o ddau ddarn unigol o ymchwil: adolygiad o'r anghydraddoldeb mae Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu (Cemlyn, Greenfields, Burnett, Matthews a Whitwell, 2009), ac adolygiad o gynnydd gan awdurdodau lleol ar ddarparu lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr (Brown a Niner, 2009). Fe amlygodd *Simple Solutions gynnydd cymharol araf ac annigonol gan awdurdodau lleol ar weithredu i ddatrys y diffyg cydnabyddedig o lety priodol.* Archwiliodd adroddiad dilynol y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol yn yr Alban (Brown, Niner a Lomax, 2010).

Amcan yr astudiaeth hon yw darparu diweddariad i adolygiad cynnydd 2009 ac i ddarparu gwybodaeth parthed y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru trwy gydol cyfnod 2006-2009.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2010. Efallai y bydd manylion darpariaeth safleoedd presennol, a chynlluniau i ddatblygu safleoedd pellach, wedi newid ychydig ers hynny. Fodd bynnag, mae'n darparu diweddariad diweddar ar ddarpariaeth safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr a'r heriau y mae'n rhaid delio â nhw.

Ymagwedd i'r ymchwil

Defnyddiodd yr ymchwil yr ymagweddau canlynol i gasglu gwybodaeth berthnasol i ddynodi cynnydd ar ddarpariaeth lleiniau:

- Dadansoddiad o ffynonellau presennol, yn cynnwys Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, gwybodaeth Cyfrifiad Carafanau (Cymru a Lloegr) gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, a Grant Safle Llywodraeth y Cynulliad (Cymru a Lloegr) a cheisiadau neu ganiatadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (Lloegr yn unig).
- Anfonwyd holiadur manwl at bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Erbyn y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer dadansoddiad data, fe dderbyniwyd ymatebion gan 261 o'r 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr, ac 16 o'r 22 awdurdod yng Nghymru.

Fframwaith cyfreithiol a pholisi

Y brif ddogfen yn rhoi manylion polisi cynllunio yn Lloegr yw Cylchlythyr 01/2006 *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan ragflaenydd yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Roedd yn gosod amcanion deddfwriaeth a pholisi'r llywodraeth ar y pryd, sef i:

- sicrhau fod gan Sipsiwn a Theithwyr fynediad teg at ddarpariaeth llety, addysg, iechyd a lles addas
- lleihau'r nifer o wersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi
- delio â than ddarpariaeth a chynyddu'r nifer o safleoedd awdurdodedig erbyn 2011
- diogelu ffordd o fyw draddodiadol Sipsiwn a Theithwyr
- ategu pwysigrwydd asesu'r angen am lety
- hyrwyddo darpariaeth safleoedd preifat, ac
- osgoi Sipsiwn a Theithwyr yn dod yn ddigartref, pan fyddant yn cael eu troi allan o safleoedd heb awdurdod a ble nad oes llety amgen.

Cafwyd datblygiadau yn y broses gynllunio ranbarthol yn Lloegr ers adolygiad cynnydd cyntaf y Comisiwn. Fe esboniodd Cylchlythyr 01/2006 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog fod angen i awdurdodau cynllunio lleol nodi safleoedd yn eu Dogfennau Datblygu Lleol i fodloni gofynion lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn y Strategaeth Ofodol Ranbarthol ar gyfer eu hardal. Fodd bynnag, mae pob rhanbarth ar gam ychydig yn wahanol ac/neu wedi mabwysiadu ymagwedd wahanol. Yn gyffredinol, mae'r broses ranbarthol amrywiol ac esblygol wedi cyflwyno ansicrwydd i awdurdodau lleol sy'n ceisio cynllunio ar gyfer a gweithredu darpariaeth safle. Mae hefyd wedi darparu gorchudd i'r rhai sydd eisiau cuddio eu gwrthwynebiad a diffyg ymroddiad i ddatrys prinder safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae polisi'r llywodraeth ar Sipsiwn a Theithwyr yn dal i gael ei ddatblygu (ar adeg cyhoeddi), ond mae'n debyg y bydd mwy o ymreolaeth a chyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd. Mae manylion pellach yn debygol o fod wedi eu cynnwys ym Mesur Datganoliaeth a Lleoliaeth y llywodraeth. Disgwylir ei gyhoeddi ar ddiwedd Tachwedd 2010 ac fe allai egluro beth fydd yn cymryd lle'r Strategaeth Ofodol Ranbarthol, targedau a chanllawiau a amlinellwyd yng Nghylchlythyr 01/2006, yn amodol i gymeradwyaeth seneddol.

Mae polisïau a deddfwriaeth yn ymwneud â materion llety a chynllunio Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru wedi eu rhannu â, ac yn adlewyrchu, rhai Lloegr yn bennaf. Yn benodol, daeth adrannau 225 a 226 o'r Ddeddf Tai 2004 i rym yng Nghymru yn

Rhagfyr 2007. Fel yn Lloegr, mae hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflawni asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn neu'n cyrchu i'w dosbarth ac i ddatblygu cynlluniau i ddiwallu'r anghenion hynny. O ran polisi cynllunio, yn Rhagfyr 2007 fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Gylchlythyr 30/2007 - *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr*. Mae'r cylchlythyr yn annog defnydd o safleoedd tir llwyd pan gynllunnir safleoedd/lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, er mwyn gwneud y defnydd economaidd gorau o dir a dan ddefnyddir. Y polisïau allweddol y delir â nhw yn y cylchlythyr cynllunio yw:

- newid i'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer dibenion cynllunio defnydd tir
- cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y broses gynllunio
- canllaw i Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio
- gofyniad fod awdurdodau cynllunio lleol yn nodi lleoliadau addas yn eu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer safleoedd preswyl a thramwy, a hefyd ar gyfer defnydd cymysg, sy'n bodloni patrymau gweithredol presennol Sipsiwn a Theithwyr
- canllaw gwell ar ddrafftio'r meini prawf polisi mewn cynlluniau datblygu a ddefnyddir i farnu ar geisiadau ar gyfer safleoedd na ddyrannir yn y cynllun
- canllaw ar Safleoedd Eithriedig Gwledig Sipsiwn a Theithwyr, ac
- adran ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (sydd wedi ei amnewid gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Mae'r canllaw yn annog awdurdodau lleol i nodi lleoliadau ar gyfer safleoedd awdurdodedig yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol fel yr hysbyswyd gan yr Asesiad Anghenion Llety perthnasol. Yna fe gyflwynir y cynlluniau hyn i Adran Gynllunio Llywodraeth y Cynulliad gyda phob cynllun yn angenrheidiol i arddangos yr aseswyd anghenion Sipsiwn a Theithwyr a bod safleoedd wedi eu nodi i fodloni unrhyw angen sy'n codi.

Canfyddiadau

Darpariaeth lleiniau yn Lloegr
Rydym yn amcangyfrif y bydd angen 5,821 o leiniau preswyl atodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y cyfnod cyntaf o bum mlynedd wedi'r asesiad anghenion lleol. Ni wyddom faint o leiniau tramwy atodol fydd angen i hwyluso ffordd o fyw nomadig, ond byddai'r rhain yn atodol i'r 5,821 o leiniau preswyl.

Dengys dadansoddiad o'r newid net yn niferoedd lleiniau ar gyfer awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg a darparu'r holl wybodaeth berthnasol ar gwblhau lleiniau a cholledion lleiniau rhwng 2006 a 2011:

- Ledled Lloegr yn gyffredinol, gan ystyried yr holl newidiadau i leiniau – cymdeithasol a phreifat, caniatadau dros dro a pharhaol – bydd yn cymryd oddeutu 16 mlynedd i fodloni'r gofynion pum mlynedd ar y gyfradd o gynnydd a gyflawnwyd yn 2006-09. Os eithrir lleiniau a ddarperir gyda chaniatâd cynllunio dros dro neu bersonol, fe ellid ymestyn hyn i oddeutu 27 mlynedd.
- Mae 35 o awdurdodau lleol (15 y cant o'r rhai a ddarparodd yr holl wybodaeth berthnasol) ar y ffordd i fodloni eu gofynion o fewn pum mlynedd ar y gyfradd cynnydd a gyflawnwyd rhwng 2006 a 2009, gan ystyried pob newid net; a 25 arall (11 y cant) o fewn 10 mlynedd. O eithrio lleiniau a ddarparwyd gyda chaniatadau cynllunio dros dro neu bersonol, dim ond 15 o awdurdodau (chwech y cant) sydd ar eu ffordd i fodloni'r gofynion o fewn pum mlynedd a 24 arall (10 y cant) o fewn 10 mlynedd.
- Dangosodd 57 y cant, neu 135 o awdurdodau yn darparu gwybodaeth lawn, naill ai dim newid neu newid negyddol yn nifer lleiniau yn 2006-09. Ac eithrio lleiniau a ddarparwyd trwy ganiatadau cynllunio dros dro neu bersonol, ni wnaeth 68 y cant o awdurdodau unrhyw enillion net yn nifer lleiniau.
- Roedd cynnydd yn dipyn gwell na'r cyfartaledd mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel (gofyniad o 40 o leiniau neu fwy – yn debygol o fodloni targedau pum mlynedd mewn 11 mlynedd, yn seiliedig ar gyfanswm newidiadau lleiniau) ac ardaloedd blaenoriaeth isel (gofynion hyd at bump o leiniau – yn debygol o gymryd naw o flynyddoedd). Roedd hyn ar ei isaf mewn ardaloedd blaenoriaeth canolig (22 mlynedd). Ac eithrio caniatadau dros dro neu bersonol, mae'r amcangyfrif o nifer o flynyddoedd yn 18 ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth uchel, 19 ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth isel, a 38 ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth canolig.

Mae'r casgliadau canlynol yn awgrymu yr ymddengys fod cynnydd mewn bodloni targedau yn arafach na'r hyn a geir yn arolwg cynnydd cyntaf y Comisiwn. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r gwahanol samplau yn y ddwy astudiaeth ac yn rhannol i'r ffocws yn yr adolygiad hwyrach ar newid yn nifer lleiniau yn hytrach na dim ond ar gwblhau lleiniau. Fodd bynnag, mae arwyddion fod cyfradd cynnydd blynyddol 2009 yn is na'r hyn a gyflawnwyd rhwng 2006 a 2008.

Ar yr un pryd, fe gafwyd nifer o agweddau positif ar gynnydd ar ddarpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr ers 2006:

- Mae'r rhan fwyaf o safleoedd newydd yn cael eu darparu'n breifat gan Sipsiwn a Theithwyr eu hunain. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn safleoedd bychain ac yn cyd-fynd yn dda â gobeithion cymunedol ar ddaliadaeth, a gall gynorthwyo integreiddiad â'r gymuned sefydlog.

- Roedd y nifer o ganiatadau cynllunio a ddyfarnwyd yn 2009 yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Fe gynyddodd y gyfran o ganiatadau parhaol (yn hytrach na dros dro) hefyd.
- Cynyddodd y gyfran o ddyfarniadau Grant Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ymwneud â darpariaeth safleoedd neu leiniau newydd neu ailddefnyddio lleiniau presennol (yn hytrach na dim ond ailwampio safleoedd) yn rowndiau ymgeisio 2008/09 a 2009/10. Mae gan ddyfarniadau yn 2006 i 2009 y potensial i arwain at greu oddeutu 500 o leiniau atodol ar safleoedd cymdeithasol, er bod yna awgrymiadau na fyddant oll yn cael eu datblygu fel y bwriadwyd.

Fodd bynnag, y prif gasgliad yw bod angen i gyfradd cynnydd ar ddarpariaeth safleoedd ar y cyfan gynyddu fwy na pum gwaith i fodloni'r diffyg lleiniau pum mlynedd, ble darperir lleiniau gyda chaniatadau cynllunio parhaol.

Darpariaeth lleiniau yng Nghymru
Gan nad yw Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi eu cwblhau ledled Cymru eto, nid yw graddfa anghenion lleiniau yn y dyfodol yn glir. Er bod y sefyllfa cyflenwad ac angen yn wahanol iawn yn ôl ardal, awgryma astudiaeth genedlaethol gynharach (Niner, 2006) fod yna ddiffyg cenedlaethol o leiniau.

Awgryma data Cyfrif Carafanau a gwybodaeth gan awdurdodau lleol fod y nifer o leiniau awdurdodedig ledled Cymru wedi bod yn statig ers 2006 ac yn fwy na thebyg wedi lleihau. Yn seiliedig ar yr 16 o awdurdodau a ymatebodd i'r arolwg:

- Cafwyd cynnydd o 16 llain ers 2006, gan ystyried cyfanswm newid net yn nifer lleiniau ar safleoedd cymdeithasol a phreifat.
- Os eithrir lleiniau a ddarperir gyda chaniatadau cynllunio dros dro neu bersonol yn unig, fe gafwyd lleihad o bedwar llain rhwng 2006 a 2009.

Cafwyd colled net o leiniau ar safleoedd cymdeithasol yn gysylltiedig â gwelliannau i safleoedd. Ymddengys y collwyd lleiniau o ganlyniad anfwriadol i'r angen i daclo gorlenwi ar safleoedd awdurdod lleol wrth gyflawni gwaith i wella safleoedd. Sefydlwyd dau safle cymdeithasol dros dro, i bob pwrpas yn wersylloedd a oddefir, ers 2006. Cafwyd cynnydd bychan mewn cwblhad ar safleoedd preifat, bron pob un â chaniatadau cynllunio dros dro neu bersonol.

Mae rhai arwyddion calonogol ar gyfer darpariaeth safleoedd yn y dyfodol:

- Yn ei Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targed i gyflenwi dau safle cymdeithasol newydd i Sipsiwn a Theithwyr erbyn 2013.
- O'r 16 o awdurdodau a ymatebodd i'r arolwg, mae tri yn cynllunio safle cymdeithasol newydd gyda'i gilydd yn darparu 24 o leiniau. Mae gwireddu'r cynlluniau hyn yn debygol o fod yn gwbl ddibynnol ar barhad cyllid Grant.

Yn wahanol i Gylchlythyr 01/2006 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn Lloegr, nid yw Cylchlythyr 30/2007 Llywodraeth y Cynulliad yn gosod amcanion ar gyfer darpariaeth safleoedd. Fodd bynnag, mae'r dybiaeth yn dal i fod yno y dylid, ble ceir angen, darparu safleoedd atodol i Sipsiwn a Theithwyr. Mae angen newid sylweddol i gyflawni hyn.

Rhwystrau i ddarpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
Ymddengys fod nifer o faterion yn gweithredu fel rhwystrau i gynnydd ar fodloni'r angen am ddarpariaeth safleoedd. Awgryma'r arolwg hwn dair prif set o broblemau:

- Canfod safleoedd a'u cyflenwi trwy'r fframwaith gynllunio.
- Cyllid ac ariannu.
- Arweinyddiaeth ac ymroddiad i drechu gwrthwynebiad.

Canfod safleoedd a'r fframwaith gynllunio
Nid yw'r seilwaith ar gyfer y system cynllunio defnydd tir (Dogfennau Cynllun Datblygu a Chynlluniau Datblygu Lleol) wedi eu sefydlu eto mewn nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Ni fydd nifer arwyddocaol o awdurdodau yng Nghymru a Lloegr wedi cyflawni hyn tan 2011 a thu hwnt. Nes y bydd y seilwaith wedi ei sefydlu, ni all y system a arweinir gan gynllun weithredu'n effeithiol.

Golyga'r diffyg fframwaith cynllunio terfynol y bydd cyfran arwyddocaol o geisiadau cynllunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr naill ai'n cael eu gwrthod (mae'n bosibl y gellir neu na ellir gwyrdroi gwrthodiad trwy apêl) neu dderbyn caniatadau dros dro am eu bod yn y lle 'anghywir' – ble mae Sipsiwn a Theithwyr wedi dod o hyd i dir fforddiadwy ac ar gael yn aml mewn lleoliadau gyda rhagdybiaeth yn erbyn datblygu.

Yn Lloegr, mae fframwaith gynllunio ranbarthol Cylchlythyr 01/2006 wedi pennu'r nifer o leiniau i'w darparu ym mhob awdurdod cynllunio lleol, ac yn monitro cynnydd tuag at fodloni'r targedau hyn. Mae corff goruchwylio yn darparu modd o sicrhau fod y cyfrifoldeb am ddarparu safleoedd wedi ei rannu ymysg awdurdodau lleol.

Yng Nghymru, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol symlach gyflymu cynnydd ar ddarpariaeth safleoedd.

Cyllid ac ariannu
Ystyrir cyllid ac ariannu i fod yn rhwystrau arwyddocaol, yn arbennig yng Nghymru ble mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth safleoedd presennol a darpariaeth newydd arfaethedig yn y sector gymdeithasol (darpariaeth awdurdod lleol). Nid yw Grantiau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ble roeddynt ar gael ar adeg cyflawni'r ymchwil, bellach ar gael yng Nghymru a Lloegr ar gyfer darpariaeth safleoedd newydd. Yn y ddwy wlad, fe adroddodd ymatebwyr awdurdod lleol gynlluniau ar gyfer safleoedd cymdeithasol Sipsiwn a Theithwyr newydd. Mae gweithrediad y cynlluniau hyn yn debygol o fod yn ddibynnol ar barhad cymorth Grant neu gymhelliannau ariannol eraill i ddarparu safleoedd.

Mae ansawdd safleoedd cymdeithasol yn dal i fod yn bryder ar gyfer ychydig dan hanner awdurdodau lleol Lloegr a dros hanner rhai Cymru. Mae gan nifer o awdurdodau lleol gynlluniau i wella problemau corfforol sydd unwaith eto'n ddibynnol ar argaeledd arian Grant i ailwampio. Nid yw pob gofid yn ymwneud ag amodau corfforol y gellir eu gwella trwy ailwampio; mae rhai yn amgylcheddol neu'n ymwneud â lleoliad y safle ac mae rhai yn gymdeithasol, yn arbennig yn ymwneud â gwrthdaro teuluol rhwng preswylwyr safleoedd neu rhwng preswylwyr presennol a phreswylwyr newydd posibl.

Ymroddiad i drechu gwrthwynebiad
Mae gwrthwynebiad i ddarpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, all gael ei waethygu gan sylw negyddol yn y cyfryngau, yn arwain at broblemau o ran canfod safleoedd addas ac yn rhwystr nerthol i ddarpariaeth safleoedd. Gall gwrthwynebiad ddod gan y cyhoedd ac aelodau etholedig. Os nad yw darpariaeth safle yn flaenoriaeth leol a bod arweinyddiaeth yn ddiffygiol, mae'r rhwystr hwn yn un anodd iawn i'w drechu.

Awgryma ymatebion gan awdurdodau lleol nad oes datrysiad buan i'r mater hwn, a bod angen gweithio'n amyneddgar a dyfal trwy wahanol ddulliau o ymgysylltu gyda chymunedau sefydlog a Sipsiwn a Theithwyr, asiantaethau eraill ac aelodau etholedig. Awgryma'r arolwg fod ymarfer da mewn isafswm o awdurdodau, ond mai ychydig iawn mae eraill yn wneud.

Mae nifer o'r argymhellion ym mhapur briffio'r Comisiwn *Sipsiwn a Theithwyr: Datrysiadau syml i gyd-fyw* wedi eu hanelu at drechu rhwystrau o'r fath trwy gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, creu gwell sianelau cyfathrebu, a sicrhau fod

problemau llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu prif ffrydio a'u mewnosod mewn strategaethau lleol. Mae'n dadansoddiad wedi dangos fod cynnydd cyffredinol yn y maes hwn yn galonogol ond clytiog. Mae yna rywfaint o ymarfer da rhagweithiol rhagorol ond, ar yr un pryd, ychydig iawn mae rhai awdurdodau yn wneud. Yn galonogol, awdurdodau blaenoriaeth uchel Lloegr (y rhai gyda'r gofynion uchaf am leiniau) yw'r mwyaf gweithredol yn gyffredinol.

Yn y cyd-destun hwn, dylai'r amcan fod i rannu a lledaenu arfer da.

Cysylltiadau

Cymru

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
RHADBOST RRLR-UEYB-UYZL
Llawr 3, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT
Prif rif ffôn: 0845 604 8810
Ffôn testun: 0845 604 8820
Ffacs 0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
FREEPOST RRLL-GHUX-CTRX
Arndale House, Arndale Centre, Manceinion M4 3AQ
Prif rif ffôn: 0845 604 6610
Ffôn testun: 0845 604 6620
Ffacs: 0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
FREEPOST RSAB-YJEJ-EXUJ
The Optima Building, 58 Robertson Street, Glasgow G2 8DU
Prif rif ffôn: 0845 604 5510
Ffôn testun: 0845 604 5520
Ffacs: 0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm
Bydd galwadau o linellau daear BT yn costio'r un faint â galwad leol, ond gall prisiau galwadau o ffonau symudol a darparwyr eraill amrywio.

Hwyrach y bydd galwadau'n cael eu monitro at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.
Bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael trwy Linell Iaith pan fyddwch chi'n ffonio ein llinellau cymorth.

Os ydych chi angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau ar ein gwefan.
www.equalityhumanrights.com

www.equalityhumanrights.com

Yn 2009 fe gyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adolygiad o gynnydd gan awdurdodau lleol ar ddarparu lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr.

Amcan yr crynodeb gweithredol hon yw darparu diweddariad i adolygiad cynnydd 2009 ac i ddarparu gwybodaeth parthed y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru trwy gydol cyfnod 2006-2009.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission